**HYSBYSIAD O GAIS**
**AR GYFER CYWIRO'R GOFRESTR TIROEDD COMIN**

**DEDDF TIROEDD COMIN 2006**

**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**(TIR O'R ENW RICHMOND HOUSE A CHWRTIL,**
**BRYN OWEN, SAINT HILARI, Y BONT-FAEN, BRO MORGANNWG)**

I bob perchennog neu brydlesai, tenant neu feddiannydd honedig unrhyw ran o'r tir a ddisgrifir isod, ac i bawb arall y bo'n berthnasol iddynt.

Cyngor Bro Morgannwg ("y Cyngor") yw'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin ar gyfer Bro Morgannwg. O dan Reoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017 (OS 2017/566) ("y Rheoliadau"), mae'n ofynnol i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i geisiadau ar gyfer dadgofrestru tir comin.

Mae'r Cyngor wedi derbyn cais i ddadgofrestru tir comin fel y nodir isod:

| | |
|---|---|
| Yr ymgeisydd: | Mr Marcus Treharne-Davies |
| Dyddiad cyflwyno: | 8 Hydref 2024 |
| Tir y Cais: | Tir o'r enw Richmond House, Bryn Owen, Saint Hilari, Y Bont-faen, Bro Morgannwg CF71 7DT a gofrestrwyd dan uned CL73 Comin Bryn Owen ym mhlwyf y Bont-faen gyda Llanfleiddan ym Mro Morgannwg ac a gofrestrwyd yng Nghofrestrfa Tir EF dan y rhif teitl CYM353963, sy'n breswylfa breifat ac y gellir ei weld ar y cynlluniau sy'n atodedig i'r cais. Mae Tir y Cais wedi'i amlinellu'n goch ar y cynllun atodedig ac mae ffin uned CL73, Comin Bryn Owen, wedi'i hamlinellu â llinellau gwyrdd ar y cynllun. |
| Sail Statudol ar gyfer y Cais: | mae'r ffurflen gais yn nodi bod y cais yn cael ei wneud yn unol â pharagraff 6, Atodlen 2 i Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") ("i ddadgofrestru adeilad sydd wedi'i gofrestru'n anghywir fel tir comin"). |
| Rheswm dros y Cais: | Mae'r cais yn ymwneud â thynnu tir oddi ar y gofrestr tir comin ar y sail a bennir ym mharagraff 6, Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Y sail ar gyfer y cais yw bod Tir y Cais wedi'i gynnwys ar gam yn y cais gwreiddiol ar gyfer cofrestru tir comin a oedd yn cynnwys rhannau o diroedd caeëdig 334, 374 a 375 yr AO. Yn dilyn y cais, cofrestrwyd Tir y Cais dros dro, a chan nad oedd gwrthwynebiad, daeth yn derfynol ar 1 Hydref 1970. |

Os yw'r Cyngor, ar ôl ystyried y cais ac unrhyw sylwadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau isod, yn fodlon bod Tir y Cais, sy'n dir sydd wedi'i gofrestru fel tir comin, yn dir y mae paragraff 6, Atodlen 2 i Ddeddf 2006 yn berthnasol iddo, rhaid i'r Cyngor, yn ddarostyngedig i baragraff 6, roi effaith i'r penderfyniad drwy dynnu Tir y Cais o'i gofrestriad yn y gofrestr tiroedd comin ar yr amod nad oes unrhyw un a oedd yn dibynnu ar y gofrestr yn flaenorol wedi'i ragfarnu'n annheg. Mae paragraff 6 yn berthnasol i dir lle bodlonir gofynion paragraff 6(2) Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

Dylid cyfeirio sylwadau ynghylch y cais at y Cyngor fel 'Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin' a dylai'ch sylwadau:

- ddyfynnu Rhif y Cais - CRA1
- nodi enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud y sylwadau, a natur buddiant y person hwnnw (os oes un) mewn unrhyw dir y mae'r cais yn effeithio arno, a gall gynnwys cyfeiriad e-bost
- nodi ar ba sail rydych yn gwneud y sylwadau
- bod wedi'u llofnodi gan y person sy'n eu gwneud; a'u
- bod yn cael eu hanfon drwy'r post i'r Cyngor fel "Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin" yn:

  Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 4RU.

neu

- eu bod yn cael eu hanfon drwy e-bost yn:

  FIThornton@valeofglamorgan.gov.uk

Ni fydd unrhyw sylwadau a wneir yn cael eu trin yn gyfrinachol ond ymdrinnir â hwy yn unol â rheoliad 14.

Os caiff y cais ei gyfeirio at Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ("PCAC") i'w benderfynu yn unol â rheoliad 15, bydd unrhyw sylwadau'n cael eu hanfon gydag ef i'w hystyried.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 4.30pm 26 Tachwedd 2024.

Mae dogfennau sy'n ymwneud â'r cais ar gael i'w harchwilio yng:

Nghyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU o 14 Hydref 2024 hyd at, ac yn cynnwys, 26 Tachwedd 2024 rhwng 9am a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, fodd bynnag, bydd angen i chi drefnu apwyntiad. Ffoniwch (01446) 709388.

Gellir gweld yr Hysbysiad hwn a'r cynllun cysylltiedig hefyd drwy gyrchu gwefan y Cyngor:

www.bromorgannwg.gov.uk/tircomin

Dyddiad: 14 Hydref 2024

Llofnod:



Victoria Davidson,
Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Cyngor Bro Morgannwg